
BWLETIN POLISI CYTÛN

CYTÛN POLICY BULLETIN

OCTOBER / HYDREF 2011



CYHOEDDI RHAGLEN DDEDDFWRIAETHOL CYMRU

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei Rhaglen Ddeddfwriaethol, sy'n cynnwys ei hamcanion ar gyfer oes y Cynulliad.

Fe'i cyhoeddir o dan y penawdau canlynol:

Pennod 1: **Twf a swyddi cynaliadwy**

Pennod 2: **Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru**

Pennod 3: **Addysg**

Pennod 4: **Gofal Iechyd ar gyfer yr 21ain Ganrif**

Pennod 5: **Cefnogi Pobl**

Pennod 6: **Cartrefi Cymru**

Pennod 7: **Cymunedau Mwy Diogel i Bawb**

Pennod 8: **Cydraddoldeb**

Pennod 9: **Mynd i'r Afael â Thlodi**

Pennod 10: **Cymunedau Gwledig**

Pennod 11: **Yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd**

Pennod 12: **Diwylliant a Threftadaeth Cymru**

Mae'r ymrwymïadau allweddol yn cynnwys:

- Sefydlu cronfa swyddi newydd i Gymru.
- Gwellu'r mynediad at wasanaethau meddyg teulu.
- Ariannu 500 o swyddi cymorth cymunedol newydd.
- Cynyddu gwariant rheng flaen mewn ysgolion.
- Dyblu nifer y plant sy'n elwa ar y rhaglen 'Dechrau'n Deg'.
- Cyflwyno Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd statudol, a ategir gan brofion
- Dechrau rhyddhau mwy o dir cyhoeddus ar gyfer tai fforddiadwy.
- Llunio cynllun gweithredu gwrthdlodi erbyn y flwyddyn nesaf a fydd yn dod â'r holl bolisiau datganoledig perthnasol ynghyd.
- Cynyddu nifer y rhoddwyr organau yng Nghymru.
- Creu parthau cadwraeth morol newydd.
- Pwyso am adolygiad annibynnol o S4C.

darllen a mathemateg cenedlaethol.

- Cyhoeddi Strategaeth Iaith Gymraeg pum mlynedd.

WELSH BUDGET PUBLISHED

Y mis hwn cyhoeddwyd cynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer y tair blynedd nesaf, sy'n cynnwys hwb i swyddi, plant, ysbytai ac ysgolion.

Amlinellodd y Gweinidog Cyllid Jane Hutt Gyllideb ar gyfer "twf a swyddi" y mae'r Llywodraeth yn honni y bydd yn cefnogi'r gwaith o gyflenwi'r Rhaglen Lywodraethu.

Daw'r gyllideb wedi'r setliad cyllideb mwyaf llym ers datganoli.

Dywed Llywodraeth Cymru ei bod yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael er mwyn cefnogi'r blaenoriaethau sy'n bwysig i bobl Cymru – swyddi a thwf, addysg, iechyd, a chymunedau cryfach.

Mae'r mesurau allweddol yn y Gyllideb ddrafft yn cynnwys:

- Buddsoddi £75 miliwn dros y tair blynedd nesaf mewn cynllun newydd sef Twf Swyddi Cymru sydd â'r bwriad o helpu 4,000 o bobl ifanc bob blwyddyn trwy gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth wedi'u teilwra.
- £55 miliwn i estyn y cynllun llwyddiannus Dechrau'n Deg gyda'r bwriad o helpu 18,000 yn rhagor o blant.
- £27 miliwn yn ychwanegol i ysgolion yn 2014/15. Mae'r llywodraeth yn honni bod hyn yn golygu y bydd cyllidebau ysgolion yn parhau i dyfu'n gynt na'r gyllideb gyffredinol yng Nghymru.
- £288 miliwn yn ychwanegol i'w fuddsoddi yn y GIG yng Nghymru dros y tair blynedd nesaf.
- Buddsoddiad ychwanegol i recriwtio 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol newydd yr Heddlu ledled Cymru.

Eleni, y canolbwynt fu asesu effaith newidiadau i gynlluniau blaenorol a lle y mae arian ychwanegol wedi'i dyrannu, cyhoeddir y manylion yn y Gyllideb.

ARCHESGOB YN GWRTHWYNEBU "CYSYNIAD TYBIEDIG"

Mae Archesgob Cymru, y Dr Barry Morgan, wedi lleisio'i wrthwynebiad i gynlluniau Llywodraeth Cymru i gyflwyno system eithrio ar gyfer rhoi organau yng Nghymru.

Wrth siarad yng Nghorff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru ym mis Medi, anogodd y Dr Morgan bawb yng Nghymru i ddod yn rhoddwyr, gan awgrymu y byddai o bosib yn ffafrio

system a oedd yn ei gwneud hi'n orfodol i gofrestru eich dymuniadau ynghylch rhoi organau.

Ond roedd yr Archesgob am bwysleisio'r gwahaniaeth rhwng caniatâd tybiedig, a'r cysyniad o roi fel rhodd.

SWYDDOGION LLYWODRAETH CYMRU YN CWRDD Â'R EGLWYSI I DRAFOD TAI

Ym mis Medi, cyfarfu swyddogion y Gweinidog Tai, Huw Lewis, gyda swyddogion eglwysi Cymru, er mwyn archwilio amcanion a gobeithion y Gweinidog ar gyfer tai cymdeithasol a fforddiadwy yng Nghymru. Mae darparu tai fforddiadwy o ansawdd yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. O dan y Rhaglen Lywodraethu dros y pum mlynedd nesaf, mae Llywodraeth Cymru am gynyddu'r cyflenwad o dai o ansawdd a darparu mwy o ddewis i bobl sydd ag anghenion tai.

Mae'r gweinidog yn dymuno gweithio gyda phartneriaid ar draws Cymru, gan gynnwys eglwysi, er mwyn trafod sut y gellid sicrhau bod tir ac adnoddau ar gael er mwyn cynyddu'r capasiti, yn enwedig yn y sector rhentu cymdeithasol.

Mae gan eglwysi rôl i'w chwarae yn yr agenda hwn oherwydd eu perchnogaeth ar adeiladau diangen, y gellid eu defnyddio ar gyfer datblygiadau preswyl, a'u daliadau tir, y gellid eu rhyddhau ar gyfer adeiladau newydd.

Mae'r trafodaethau hyn yn parhau, ac mae'r swyddogion wedi cytuno i gyfarfod eto yn y dyfodol agos er mwyn archwilio'r cyfleoedd ymhellach.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £3 miliwn er mwyn creu menter newydd fydd yn golygu y bydd pedwar o ddarparwyr tai cymdeithasol Cymru yn cydweithio er mwyn diwallu anghenion tai'r wlad.

Mae Cymdeithas Tai Clwyd a grwpiau Coastal, Hendre a Seren wedi ymuno i greu Partneriaeth Tai Cymru sydd â'r bwriad o ddarparu mwy o dai fforddiadwy ar hyd gogledd a de Cymru. Mae Cymdeithas Adeiladu'r Principality hefyd wedi cefnogi'r Bartneriaeth gyda chyllid o £12 miliwn.

Y gobaith yw y bydd y fenter yn arwain at 150 yn rhagor o dai fforddiadwy yn y flwyddyn gyntaf gan ostwng y rhestrau aros ar gyfer tai cymdeithasol. Mae'r Bartneriaeth hefyd yn bwriadu darparu cartrefi ar gyfer y rhai hynny mewn ar gyflogau isel sy'n dymuno perchen ar dŷ yn y tymor hir ond sy'n methu fforddio prynu ar unwaith.

GRŴP YMGYNGHOROL ANNIBYNNOL I YSTYRIED CYNLLUNIO YNG NGHYMRU

Mae'r Gweinidog Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, John Griffiths, wedi cyhoeddi adolygiad er mwyn ystyried sut y dylid darparu gwasanaethau cynllunio yng Nghymru yn y dyfodol.

Bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal gan grŵp ymgynghorol annibynnol o dan gadeiryddiaeth cyn Gyfarwyddwr Cymru'r Arolygiaeth Gynllunio, John Davies. Daw cyhoeddiad am aelodau eraill y grŵp cyn hir. Cyhoeddir galwad am dystiolaeth y mis hwn. Yn ystor yr adolygiad, bydd y grŵp yn:

- Nodi'r prif amcanion polisi y mae'n rhaid i'r system gynllunio eu cyflawni nawr ac yn y dyfodol;
- Asesu'r trefniadau presennol mewn sefydliadau gan nodi enghreifftiau o arferion da a meysydd sydd angen eu gwella;
- Cynnig opsiynau ynghylch sut i gynnal y system gynllunio yn y dyfodol, gan gynnwys sefydlu a datblygu gwasanaethau rheoli.

Bydd argymhellion y grŵp yn cael eu defnyddio fel tystiolaeth ar gyfer Mesur Cynllunio newydd Llywodraeth Cymru. Mae Datganiad Deddfwriaethol 2011-16 Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymrwymiad i gyflwyno Mesur Cynllunio i gysoni'r ddeddfwriaeth bresennol a gwneud y system gynllunio'n fwy tryloyw a hygyrch. Caiff papur gwyn ei gyhoeddi yn 2012 a fydd yn llywio Mesur Cynllunio i'w gyflwyno gerbron y Cynulliad yn ddiweddarach.

Bydd y grŵp ymgynghorol annibynnol yn cyflwyno ei adroddiad erbyn mis Mehefin 2012.

AMDDIFFYN PLANT SYDD WEDI DIODDEF OHERWYDD Y FASNACH MEWN POBL YNG NGHYMRU

Mae Gwenda Thomas, y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol, wedi cyhoeddi Protocol Cymru Gyfan ar Fasnachu Plant. Mae'r protocol yn datgan pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu eu cymryd gydag amrediad eang o asiantaethau er mwyn sicrhau na fydd Cymru'n fodlon goddef unrhyw fasnachu mewn pobl.

Mae'r protocol yn darparu cyfarwyddyd ymarfer i weithwyr proffesiynol a gwirfoddol o'r holl asiantaethau er mwyn eu helpu nhw i ddiogelu'n effeithiol y plant sy'n cael eu cam-drin a'u hesgeuluso gan oedolion sy'n eu masnachu i'r DU ac o fewn y DU at ddibenion eu hecsploetio. Bydd y protocol hwn yn rhan o'r gweithdrefnau cenedlaethol i amddiffyn plant a fydd yn sicrhau bod yr holl Fyrddau Amddiffyn Plant Lleol wedi ymrwymo i'w egwyddorion a'i arferion.

Roedd adroddiad gan y Comisiynydd Plant (*'Ffiniau Pryder'* a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2009) ac adroddiad gan Grŵp Trawsbleidiol y Cynulliad Cenedlaethol ar Fasnachu mewn Pobl (*'Knowing No Boundaries'* a gyhoeddwyd ym mis Mai 2010) yn tynnu sylw at broblem masnachu mewn pobl. Yn rhannol mewn ymateb i'r cyhoeddiadau pwysig hyn, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Grŵp Adolygu Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan lunio protocol ar gyfer Cymru Gyfan i sicrhau bod camau cyson ac effeithiol yn cael eu cymryd i ddiogelu

plant. Cynhyrchwyd y protocol hwn yn dilyn penodiad Bob Tooby, cydgysylltydd cyntaf Cymru Gyfan ar gyfer atal masnachu mewn pobl, yn gynharach eleni. Rôl y cydgysylltydd yw codi ymwybyddiaeth o fasnachu mewn pobl er mwyn amlygu'r broblem gudd ac er mwyn dwyn mwy o fasnachwyr o flaen eu gwell.

Mae gan Grŵp Adolygu Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan fandad a chynrychiolaeth oddi wrth bob un o Bwyllgorau Ardal Amddiffyn Plant ac asiantaethau sy'n bartneriaid.

Mae gwaith diweddar arall a wnaed gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â masnachu mewn pobl yn cynnwys:

- Comisiynu adnodd hyfforddi ar-lein, sydd ar gael i bartneriaid allweddol y Byrddau Amddiffyn Plant Lleol ac i ymarferwyr rheng flaen i'w helpu i ganfod a chefnogi plant a allai ddioddef oherwydd masnachu;
- Cyllid ar gyfer cydgysylltydd gwrth-fasnachu i Gymru Gyfan, i arwain ar faterion ynghylch amddiffyn y cyhoedd. Rôl y cydgysylltydd fydd sicrhau dull aml-asiantaeth o weithredu er mwyn helpu dileu masnachu mewn pobl yng Nghymru. Cafodd Bob Tooby ei apwyntio i'r swydd hon ym mis Ebrill 2011.

LANSIO YMGYRCH NEWYDD I FYND I'R AFAEL Â THRAIS YN Y CARTREF

Mae'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau, Carl Sargeant, wedi lansio ymgyrch ddiweddaraf Llywodraeth Cymru er mwyn helpu codi ymwybyddiaeth a herio agweddau tuag at drais yn y cartref yng Nghymru.

Mae 'Byw Heb Ofn' yn rhan o agenda 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel' parhaus y Llywodraeth, sef ei strategaeth chwe blynedd i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a cham-drin yn y cartref. Mae'n cynnwys dau fideo trawiadol fydd i'w gweld ar wefan yr ymgyrch - www.bywhebofn.org.uk. Mae'r fideo cyntaf yn canolbwyntio ar draws rhywiol yn erbyn menywod a'r ail yn edrych ar effeithiau cam-drin yn y cartref ar blant. Bydd y ddau fideo yn rhedeg yn y pythefnos wedi'r lansiad ac yn cynnwys gwybodaeth ar sut mae cael hyd i help.

BIL SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU)

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Papur Gwyn sy'n gofyn am safbwyntiau ynghylch cynigion deddfwriaethol Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru).

Mae'r Llywodraeth yn bwriadu deddfu yn y meysydd canlynol:

- ymyrryd mewn ysgolion sy'n achosi pryder
- canllawiau ar wella ysgolion
- trefniadaeth ysgolion
- cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg
- cyfarfodydd blynyddol â rhieni
- dysgwyr ôl-16 ag anghenion addysgol arbennig (AAA) mewn ysgolion

- brechwast am ddim mewn ysgolion
- cwnsela mewn ysgolion
- codi taliadau hyblyg am brydau ysgol.

Daw'r Ymgynghoriad i ben ar Ionawr 5ed 2012.

CYHOEDDI ADOLYGIAD EANG O GYMWYSTERAU YNG NGHYMRU

Mae'r Dirprwy Weinidog Sgiliau, wedi cyhoeddi adolygiad angen o'r holl gymwysterau sydd ar gael i bobl ifanc rhwng 14 ac 19 yng Nghymru.

Dywedodd Mr Cuthbert wrth y Gynhadledd Sgiliau Busnes yn Abertawe ei fod am sicrhau bod y Llywodraeth yn cael gwerth ei harian o'i chymwysterau, a'u bod yn diwallu anghenion yr economi hefyd.

Bydd yr adolygiad yn eang ond yn canolbwyntio ar dair thema:

- Nodi'r cymwysterau mwyaf perthnasol a sicrhau eu bod ar gael i ddysgwyr.
- Sicrhau bod cyflogwyr yn deall y cymwysterau a bod ganddynt ffydd ynddynt.
- Sicrhau bod y cymwysterau'n parhau i fod yn addas i'r diben.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn adolygu'r modd y maen nhw'n ariannu addysg ôl-16. Ar hyn o bryd, mae gan y sector hwn dros 10,000 o wahanol gymwysterau.

Gweledigaeth y Llywodraeth yw sicrhau bod Cymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed yn diwallu anghenion Cymru, bod pobl yn eu deall a'i gwerthfawrogi, a bod arian cyhoeddus yn cael ei gyfeirio yn gywir er mwyn helpu darparu'r gweithlu medrus sydd ei angen ar ein heconomi. Dylai'r dewisiadau sydd ar gael i ddysgwyr wneud gwahaniaeth o ran eu galluogi i symud ymlaen i waith neu addysg uwch, ac mae angen i bobl allu deall ac ymddiried yn y cymwysterau. Fel rhan o hyn, mae Llywodraeth Cymru am sicrhau bod yr asesiadau sy'n rhan o'r cymwysterau yn addas i'r diben.

Daw cyhoeddiad cyn hir yn enwi'r unigolyn a fydd yn arwain yr adolygiad, ac aelodau'r grŵp ymgynghorol.

TÂL BAGIAU SIOPA MEWN GRYM

Oddi ar Hydref 1af, Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i gyflwyno tâl am fagiau siopa.

Bwriad y tâl o 5c, a godir ar bob bag siopa untro, yw lleihau sbwriel ac osgoi niwed diangen i'r amgylchedd.

Mae Llywodraeth Cymru'n rhagweld y bydd defnydd bagiau siopa yn lleihau o 90% yng Nghymru, o ganlyniad i'r tâl.

Amcangyfrifir y cesglir hyd at £3miliwn mewn elw net o'r tâl yn y flwyddyn gyntaf, a bydd yr arian hwnnw'n cael ei basio ymlaen gan siopau at achosion da amgylcheddol ac elusennau eraill.

Y llynedd, amcangyfrifir bod pobl Cymru wedi mynd â 350 miliwn o fagiau siopa adref o'r prif archfarchnadoedd. Nid yw'r ffigwr yma'n cynnwys siopau'r stryd fawr, siopau lleol na chanolfannau siopa y tu allan i'r trefi. Mae Awdurdodau Lleol yn amcangyfrif eu bod yn gwario £1 miliwn y flwyddyn yn clirio sbwriel a achosir gan y bagiau hyn. Y gobaith yw y bydd y tâl yn arwain at ostyngiad mawr yn y costau hyn.

LANSIO FFRAMWAITH AR GYFER SIPSIWN A THEITHWYR

Cafodd y Fframwaith cenedlaethol cyntaf ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn y DU ei lansio heddiw gan y Gweinidog Cydraddoldebau, Jane Hutt.

Bwriad "*Teithio at ddyfodol gwell,*" ynghyd â'i Gynllun Gweithredol, yw sicrhau cyfle cyfartal i Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru trwy bennu dulliau ymarferol i Lywodraeth Cymru eu defnyddio i gyflawni'r nod hwnnw.

Diben y Fframwaith yw datblygu cyfeiriad sy'n seiliedig ar wybodaeth ar gyfer llunio polisïau a metrau ar draws adrannau Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol er mwyn rhoi sylw i'r anghydraddoldebau y mae Sipsiwn a Theithwyr yn eu hwynebu yng Nghymru. Mae'r dogfennau yn nodi sut y gall Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan gymunedau Sipsiwn a Theithwyr fynediad teg a chyfartal at y blaenoriaethau allweddol, sef llety, iechyd ac addysg.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu camwahaniaethu, aflonyddu, ac ymddygiad o fath arall o waherddir gan y Ddeddf, ac i feithrin perthynas dda.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau £2 filiwn o arian yn 2011-12 ar gyfer safleoedd newydd neu er mwyn adnewyddu safleoedd presennol.

CYHOEDDI PARTHAU MENTER YNG NGHYMRU

Mae Gweinidog Busnes Cymru, Edwina Hart, wedi nodi'r lleoliadau a ffafrir ar gyfer y pum Parth Mentor cyntaf yng Nghymru, sef:

- Ardal Fusnes Canol Caerdydd – yn canolbwyntio'n benodol ar y sector Gwasanaethau Ariannol.
- Ynys Môn – yn canolbwyntio ar y sector ynni
- Glannau Dyfrdwy – yn canolbwyntio ar y sector gweithgynhyrchu uwch
- Sain Tathan – yn canolbwyntio ar y sector awyrofod
- Glyn Ebwy – yn canolbwyntio ar y sector moduro

Y GORUCHAF LYS YN CADARNHAU CYDRADDOLDEB DEDDFWRIAETH DDATGANOLEDIG

Mae dyfarniad gan Oruchaf Lys y Deyrnas Unedig wedi cadarnhau bod gan gyfreithiau a basir gan y Cynulliad Cenedlaethol a Senedd yr Alban statws cyfartal â Deddfau Seneddol.

Cafwyd her gyfreithiol gan yr yswirwyr AXA yn erbyn deddfwriaeth Albanaid a basiwyd yn Holyrood (yn rhoi'r hawl i bobl sy'n dioddef o broblemau iechyd a achoswyd gan asbestos i geisio am iawndal). Dywedodd y Goruchaf Lys bod angen parchu ei ddedfryd - gan ei fod yn gorff etholedig.

Felly mae'n ymddangos bod egwyddor wedi'i sefydlu y gellir herio deddfwriaeth gynradd ddatganoledig ar yr un sail yn unig â deddfwriaeth y DU.

COMISIWN ANNIBYNNOL AR GYLLID I GYMRU

Bydd y Comisiwn annibynnol ar Ddatganoli yng Nghymru, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU, yn cychwyn ar ei waith cyn bod hir, ac yn canolbwyntio ar adeiladu consensws yng Nghymru ar faterion ynghylch cyllido Cymru. Mae'n anelu at adrodd ei argymhellion ar atebolrwydd ariannol yn yr hydref 2012, a'i argymhellion ar setliad cyfansoddiadol Cymru yn 2013.

Dywedodd Prif Weinidog Cymru: "Rydym eisoes wedi ystyried sut mae Cymru'n cael ei hariannu drwy Gomisiwn Holtham, a bydd yr ymchwiliad newydd hwn yn dilyn y gwaith hwnnw a'i gasgliadau. Rwy'n falch bod disgwyl cwblhau'r cyfnod cyntaf yng nghylch gwaith y Comisiwn erbyn yr hydref nesaf. Rwy'n sicr y bydd y Comisiynwyr yn ymwybodol o'r angen i weithredu'n gyflym."

"Byddwn yn ceisio gweithio mewn ffordd gadarnhaol â'r Comisiwn, a hynny wrth barhau i frwydro dros arian gwaelodol a phwerau benthyca yn y trafodaethau rhynglywodraethol sydd ar y gweill. Bydd y trafodaethau hynny'n parhau wrth i'r Comisiwn newydd gyflawni ei waith. Ond mae hon yn broses ddeublyg – ni ellir camu ymlaen ar faterion ynghylch atebolrwydd oni bai fod yna gynnydd go iawn ar ariannu teg a phwerau benthyca. Mae ar Gymru angen pecyn cynhwysfawr o ddiwygiadau ariannol sy'n sicrhau setliad tecach a mwy sefydlog."

PRIF WEINIDOG CYMRU'N CYHOEDDI TRAFODAETH YNGHYLCH AWDURDODAETH GYFREITHIOL AR WAHÂN I GYMRU

Mae'r Prif Weinidog, Carwyn Jones, wedi cyhoeddi y bydd Llywodraeth Cymru yn dechrau trafodaeth gyhoeddus ynghylch awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân i Gymru ar ddechrau 2012.

Wrth annerch cynhadledd Cymru'r Gyfraith yng Nghaerdydd, amlinellodd y Prif Weinidog ei gred ei bod bellach yn amser priodol i ddechrau trafod y mater hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu lansio'r drafodaeth gyhoeddus ar ddechrau'r flwyddyn newydd drwy gyhoeddi Papur Gwyrdd, gan gasglu safbwyntiau pawb sydd â diddordeb yn y mater. Bydd y safbwyntiau hyn yn creu corff o dystiolaeth y gall Llywodraeth Cymru ei ddefnyddio wrth gyflwyno'r mater i'r Comisiwn ar Ddatganoli.

YMGYNGHORIAD AR FESUR HAWLIAU'R DU

Mae Llywodraeth y DU wedi lansio ymgynghoriad ar ei gynlluniau i gyflwyno Mesur Hawliau'r DU. Sefydlwyd Comisiwn ar Fesur Hawliau gan y Llywodraeth ac yn unol â gofynion ei Gylch Gorchwyl.

“Archwilio creu Mesur Hawliau'r DU sy'n ymgorffori ac yn adeiladu ar ein dyletswyddau o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, sy'n sicrhau bod yr hawliau hynny'n parhau i'w diogelu o dan gyfraith y DU, ac sy'n gwarchod ac yn helaethu ein rhyddid.

“Archwilio dull gweithredu'r dyletswyddau hyn, ac ystyried ffyrdd o hyrwyddo gwell ddealltwriaeth o wir ystod y dyletswyddau a'r rhyddid hyn.

“Darparu cyngor i'r Llywodraeth ar y broses Interlaken barhaus i ddiwygio llys Strasbwrg cyn ac ar ôl Cadeiryddiaeth y DU ar Gyngor Ewrop.

“Ymgynghori, gan gynnwys gyda'r cyhoedd, y farnwriaeth a'r gweinyddiaethau a'r cyrff deddfwriaethol datganoledig, ac anelu at gyflwyno adrodd cyn diwedd 2012.”

Mae'r Parch. Aled Edwards, Prif Weithredwr Cytûn – Eglwysi Ynghyd yng Nghymru – wedi'i apwyntio gan Lywodraeth Cymru fel un o'i chynrychiolwyr i helpu gyda gwaith y Comisiwn.

Daw'r ymgynghoriad cyhoeddus i ben ar Dachwedd 11eg 2011.

GERAINT HOPKINS,

SWYDDOG POLISI,

CYTÛN – EGLWYSI YNGHYD YNG NGHYMRU